# Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

## 1. Disgrifiwch ac esboniwch effeithiau'r cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu Cymru a fydd yn darparu mynediad teg at wasanaethau i bawb, ac yn sicrhau canlyniadau tecach i'n pobl a'n cymunedau amrywiol ledled Cymru.

Mae'r dogfennau canllawiau a ddiweddarwyd yn cynnwys mesurau diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n cadarnhau nodweddion gwarchodedig Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Maent yn annog awdurdodau i fynd ati i reoli safleoedd o safbwynt Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, yn enwedig y ddyletswydd i ddileu gwahaniaethu ac i feithrin perthynas dda â'r aelodau. Mae'r dogfennau canllawiau hefyd yn adeiladu ar y Ddeddf Cydraddoldeb i sicrhau bod safleoedd yn cael eu rheoli mewn ffordd deg a chynhwysol, gan dynnu sylw at yr angen i weithio mewn partneriaeth â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Mae'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol yn darparu fframwaith clir i sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn rhan annatod o'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a datblygu polisïau ledled Cymru. Mae cyhoeddi'r dogfennau canllawiau hyn yn cyfrannu at yr Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol, yn enwedig y rheini a amlinellir isod:

- **Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 1:** byddwn yn creu Cymru lle mae pawb yn cael cyfleoedd i ffynnu yn unol â'n nod sefydliadol i leihau tlodi.

- **Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 2:** byddwn yn creu Cymru lle gall pawb fod yn ymwybodol o'u hawliau dynol, lle cânt eu diogelu, eu hyrwyddo a lle maent yn sail i bob polisi cyhoeddus.

- **Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 3:** byddwn yn creu Cymru lle gall pawb fod yn ymwybodol o wasanaethau cyhoeddus o safon uchel a chael mynediad cyfartal atynt.

- **Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 4:** byddwn yn creu Cymru sy'n atal gwahaniaethu, erledigaeth, aflonyddu, cam-drin, troseddau casineb a/neu fwlio yn erbyn pawb.

Mae cyhoeddi pedair dogfen ganllawiau benodol ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cefnogi nodau'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol. Mae'r adnoddau hyn yn cefnogi egwyddorion craidd y cynllun i ddileu gwahaniaethu a hybu cyfle cyfartal. Mae hefyd yn annog cymunedau i feithrin cysylltiadau da â'i gilydd, yn enwedig ar gyfer grwpiau sy'n dal i brofi anghydraddoldeb ac ymyleiddio sydd wedi ymwreiddio. Mae gweledigaeth y Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol ar gyfer Cymru decach yn cyd-fynd â chyhoeddi'r dogfennau canllawiau, gan ei bod yn adlewyrchu anghenion penodol cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru ac yn darparu'r adnoddau i gyrff cyhoeddus gyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol a moesol yn well.

Yn gyffredinol, nid yw'r bwriad i gyhoeddi'r pedair dogfen ganllawiau ddiweddaraf ar Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn dilyn y cyfnod ymgynghori yn arwain at unrhyw gyfyngiadau nac effeithiau negyddol canfyddedig o ran cydraddoldeb.

Yn hytrach na hynny, mae effeithiau cadarnhaol canfyddedig ar gyfer y rheini sydd ag un neu fwy o’r naw nodwedd warchodedig. Mae’r tabl ar dudalen 48 yn amlinellu cofnod o'r effeithiau yn ôl pob un o’r naw nodwedd warchodedig.

Dylid ystyried y cwestiynau canlynol. Ystyriwch a oes effeithiau posibl ar is-adrannau gwahanol o grwpiau nodweddion gwarchodedig.

- *Sut bydd y cynnig yn hybu cydraddoldeb (Gweler y dyletswyddau cyffredinol)?*

Mae diweddaru pedair dogfen ganllawiau Llywodraeth Cymru yn cefnogi’r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn uniongyrchol, yn enwedig Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae’r dyletswyddau hyn yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, yn hybu cyfle cyfartal, ac yn meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig a’r rheini nad ydynt yn ei rhannu. Mae Sipsiwn a Theithwyr yn grwpiau ethnig cydnabyddedig o dan y Ddeddf, felly bydd canllawiau manylach a mwy cynhwysol yn helpu i sicrhau bod eu hawliau’n cael eu cynnal.

Mae diweddaru’r canllawiau’n helpu i hybu cydraddoldeb drwy sicrhau bod anghenion a hawliau cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael eu deall yn well a’u diwallu’n fwy cyson ledled Cymru. Drwy gryfhau'r canllawiau ar reoli gwersylloedd heb eu hawdurdodi, bydd awdurdodau lleol yn cael eu hannog i fabwysiadu dull gweithredu teg, cymesur ac anwahaniaethol, a fydd yn lleihau’r risg o ymyleiddio. Bydd safonau gwell ar gyfer dylunio a rheoli safleoedd yn helpu i fynd i’r afael ag anghydraddoldebau sy’n bodoli ers tro byd o ran y gallu i gael llety saff a diogel sy’n ddiwylliannol briodol. Bydd canllawiau cliriach ar Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr yn arwain at adnabod anghenion tai yn fwy cywir, gan sicrhau bod gwasanaethau a chynlluniau’n seiliedig ar dystiolaeth go iawn a lleisiau'r gymuned. Yn gyffredinol, bydd y canllawiau a ddiweddarwyd yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau mwy cyson a chynhwysol yn cael eu gwneud, yn lleihau’r rhwystrau rhag cael gafael ar wasanaethau, ac yn helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Gyda’i gilydd, mae’r pedair dogfen hefyd yn annog awdurdodau lleol a chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr i ymgysylltu â’i gilydd mewn ffordd barchus, a fydd yn helpu i feithrin gwell dealltwriaeth a pherthynas sy’n elfen allweddol o’r dyletswyddau cyffredinol ac yn un o dair cangen dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

Cafodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y pedair dogfen ganllawiau gydag aelodau o’r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr ei gynnal gan fudiadau trydydd sector. Wrth i’r contract hwn i ymgysylltu â’r gymuned gael ei ddyfarnu i'r ddau fudiad, roedd y fanyleb yn nodi bod rhaid i unrhyw fath o ymgysylltiad ag aelodau’r gymuned fod yn hygyrch, beth bynnag fo’u rhywedd/iechyd/anabledd/ethnigrwydd ac ati, er mwyn rhoi cyfle cyfartal iddynt gymryd rhan yn y broses ymgysylltu. Gan gynnwys plant a phobl ifanc.

- *Beth yw’r effeithiau negyddol posibl ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig a’r rhai sy’n byw mewn aelwydydd incwm isel a sut byddwch chi’n lliniaru’r rhain?*

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol posibl canfyddedig ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig nac, yn benodol yn yr achos hwn, ar grwpiau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Mae’r pedair dogfen ganllawiau a ddiweddarwyd yn ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb a chynhwysiant i leihau gwahaniaethu, gwella mynediad at wasanaethau sy’n ddiwylliannol briodol, a sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn diwallu anghenion cymunedau ymylol, yn enwedig y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig ac sy’n dod o gefndir incwm isel.

Mae’r dogfennau canllawiau a ddiweddarwyd yn cydnabod yr heriau economaidd-gymdeithasol sy’n wynebu cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ac yn pwysleisio pwysigrwydd opsiynau llety fforddiadwy ac addas i fynd i’r afael ag anghydraddoldebau ac i wella amodau byw.

Mae’r canllawiau ar Reoli Gwersylloedd Heb eu Hawdurdodi yn mynd ati’n benodol i gynghori awdurdodau i ystyried yr holl amgylchiadau gan gynnwys anghenion lles wrth benderfynu a ddylid cymryd camau troi allan, ac i ystyried amgylchiadau economaidd-gymdeithasol y preswylwyr cyn cymryd camau gorfodi. Mae’r canllawiau ar Reoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr hefyd yn egluro ei bod yn hysbys bod rhai cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn wynebu lefelau uchel o dlodi. Os yw preswylydd yn cael trafferth talu’r ffi am y llain, dylid annog y preswylydd i gysylltu â rheolwr y safle neu staff yr awdurdod lleol cyn gynted ag y bo modd, a dylent hwythau geisio helpu'r preswylydd i ddatrys hyn neu ei gyfeirio at sefydliadau a allai ddarparu cymorth, gan gynnwys mynediad at fudd-daliadau.

Mae Budd-dal Tai yn ddull derbyniol o dalu am ffioedd llain, a gall rheolwr y safle dynnu sylw'r preswylwyr at hynny fel opsiwn, ond cyfrifoldeb y preswylydd yw trefnu hyn. Gall rheolwr y safle hefyd helpu’r preswylwyr (os bydd angen) i wneud cais am Gredyd Cynhwysol.

Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr yn y sector cyhoeddus ac mewn awdurdodau lleol drwy gyfarfodydd monitro i'w hannog i gadw at y canllawiau er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru.

- *Pa rwystrau, os o gwbl, y mae pobl sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig yn eu hwynebu? A ellir lleihau, dileu neu liniaru'r rhwystrau hyn?*

Mae cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru yn cael eu cydnabod fel grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Maent yn wynebu nifer o rwystrau, gan gynnwys gwahaniaethu ar sail hil a rhagfarn oherwydd stigma sy’n parhau, sy’n cyfrannu at eu heithrio rhag derbyn addysg, gofal iechyd, a llety diogel. Maent hefyd yn wynebu rhwystrau o ran diffyg ymgysylltu pan wneir penderfyniadau, ac mae diffyg ymgysylltu ystyrlon â’r cymunedau hyn wedi arwain at benderfyniadau nad ydynt yn adlewyrchu profiadau bywyd Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru.

Nod y pedair dogfen ganllawiau a ddiweddarwyd yw lliniaru rhai o’r problemau hyn, a gwella bywydau cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru drwy nodi disgwyliadau clir i awdurdodau lleol. Mae’r canllawiau *Rheoli Gwersylloedd Heb eu Hawdurdodi* yn helpu i sicrhau bod gwersylloedd dros dro yn cael eu trin yn deg, yn gymesur ac mewn ffordd sy’n parchu hawliau dynol, a chymell i beidio â defnyddio camau gorfodi gwahaniaethol na llawdrwm. Mae’r canllawiau *Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr* yn darparu safonau ar

gyfer creu safleoedd diogel, sy'n ddiwylliannol briodol ac sydd â chyfarpar da, gan gynnwys canllawiau ar gynllun, cyfleusterau, a mynediad at wasanaethau hanfodol. Mae'r canllawiau *Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwy*r yn helpu awdurdodau lleol i gynnal a chadw'r safleoedd presennol i safon uchel, gan sicrhau bod materion fel atgyweiriadau'n cael eu rheoli'n gyson ac mewn modd sy'n dangos parch. Yn olaf, mae'r *Canllawiau ar Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr* yn helpu awdurdodau lleol i gynnal asesiadau cywir o anghenion llety lleol, fel bod y safleoedd a gaiff eu darparu yn y dyfodol yn seiliedig ar anghenion y gymuned.

Gyda'i gilydd nod y dogfennau hyn yw gwella llety, lleihau anghydraddoldebau, a hybu hawliau cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ledled Cymru, a'u cynnwys.

Cafodd y dogfennau hyn a ddiweddarwyd eu rhannu ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, a dyfarnwyd contract i fudiad trydydd sector i gasglu adborth ar ddogfennau'r ymgynghoriad yn uniongyrchol gan aelodau'r gymuned.

Mae cyhoeddi'r canllawiau a ddiweddarwyd yn darparu llwybr ymarferol i leihau anghydraddoldeb a gwahaniaethu ar gyfer aelodau'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Bydd yn hollbwysig monitro hyn yn barhaus a gweithio mewn partneriaeth â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr er mwyn sicrhau bod yr effeithiau hyn yn cael eu gwireddu.

- *Rhannwch eich Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder yn ehangach yn Llywodraeth Cymru a gofynnwch i gydweithwyr ystyried yr effeithiau nad oeddent wedi'u bwriadu.*
- *Sut ydych chi/y byddwch chi'n defnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i chasglu o'r ymchwil i nodi effeithiau?*

Mae'r dogfennau canllawiau diwygiedig yn anstatudol, ac nid ydynt yn gorfodi unrhyw ddeddfwriaeth newydd ar awdurdodau lleol. Fodd bynnag, yn 2015 y cafodd y canllawiau eu diweddaru ddiwethaf. Ers hynny, mae polisïau a deddfwriaeth wedi datblygu ddigon fel bod angen diwygiadau ac adnewyddu'r math o iaith a ddefnyddir. Er enghraifft, mae'r dogfennau a ddiweddarwyd bellach yn cyfeirio at Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022. Bydd y canllawiau hefyd yn cyflwyno darlun mwy cyfredol o'r mater yng Nghymru, gan fod y boblogaeth Sipsiwn, Roma a Theithwyr wedi cynyddu ac yn llawer mwy amrywiol.

Yng Nghyfrifiad 2011, cofnododd y categori "Gwyn: Teithiwr Gwyddelig/Sipsi Gwyn" 2,785 o bobl yng Nghymru, ac yng nghyfrifiad 2021 dywedodd 3,550 o bobl yng Nghymru eu bod yn ystyried eu hunain yn Sipsiwn neu'n Deithwyr Gwyddelig. Mae'r dogfennau canllawiau hyn wedi cael eu diweddaru yn dilyn un o gamau gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ArWAP)[1], a ailgyhoeddwyd yn 2024. Un o'r nodau ym mhennod Cartrefi a Lleoedd y Cynllun hwnnw yw "cydnabod bod angen llety diogel diwylliannol briodol er mwyn i unigolion ffynnu mewn rhannau eraill o'u bywydau ac er mwyn ymdrin â'r prinder safleoedd a'r llety o ansawdd gwael sydd ar gael i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru." Mae'r nod hwn yn cynnwys cam gweithredu i 'Ailddrafftio a symleiddio'r Canllawiau ar Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys aelodau o'r gymuned er mwyn adlewyrchu eu hanghenion', sef yr

---

[1] Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: diweddariad 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU

hyn y mae'r dogfennau canllawiau diwygiedig hyn yn ceisio ei wneud. Hefyd, mae'r bennod Troseddu a Chyfiawnder yn cynnwys cam gweithredu sy'n ymwneud â 'Diweddaru'r canllawiau ar Reoli Gwersylla Diawdurdod, gan gynnwys aelodau o'r gymuned er mwyn adlewyrchu eu hanghenion.'

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, gan ddarparu amgylchedd adeiledig sy'n addas i genedlaethau'r dyfodol. Drwy gynnig diweddaru'r canllawiau yn unol ag iaith a pholisïau sydd wedi'u diweddaru, bydd awdurdodau lleol yn cael eu harwain i ystyried sut mae modd iddyn nhw ymrwymo i wella bywydau cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn eu hawdurdodau eu hunain, er enghraifft, drwy gynllunio llety cynaliadwy a sicrhau bod proses asesu llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei dilyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal proses casglu data ddwywaith y flwyddyn, sef Cyfrif Carafannau. Mae'r cyfrif hwn yn rhoi darlun o nifer y carafannau Sipsiwn a Theithwyr ar safleoedd wedi'u hawdurdodi a rhai heb eu hawdurdodi ym mis Ionawr a mis Gorffennaf.

Cafwyd oedi gyda'r broses cyfrif carafannau ym mis Gorffennaf 2025 ac ym mis Ionawr 2026, wrth i swyddogion adolygu'r broses casglu data i sicrhau ei bod yn fwy cywir.

Mae ein tîm cyfreithiol wedi gwneud cyfraniad sylweddol hefyd, i sicrhau bod y dogfennau canllawiau yn cyd-fynd â'r polisi a'r canllawiau statudol diweddaraf.

- *Sut byddwch chi'n gwybod a yw eich darn o waith yn llwyddiant?*

Ni fydd effeithiau'r dogfennau canllawiau a ddiweddarwyd yn cael eu mesur yn uniongyrchol, yn enwedig gan nad yw'n statudol i awdurdodau lleol weithredu'r rhan fwyaf ohonynt. Fodd bynnag, o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mae gan awdurdodau lleol Cymru ddyletswydd statudol i asesu a diwallu anghenion llety Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n preswylio neu'n ymgynnull yn eu hardal, fel y nodir yn y Canllawiau ar gyfer Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr. Hefyd, mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol o dan Adran 104 o'r Ddeddf i gyfarwyddo awdurdod lleol i arfer ei bwerau o dan Adran 56 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 pan na fydd awdurdod wedi diwallu'r anghenion a nodwyd.

Mae'r dangosyddion llwyddiant yn cynnwys i ba raddau y mae awdurdodau lleol yn cadw at y canllawiau, yn dangos gwelliannau i safleoedd, ac yn gwella ansawdd eu Hasesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr. Bydd hyn yn cael ei asesu drwy gyfarfodydd monitro rheolaidd gydag awdurdodau lleol.

- *Ydych chi wedi datblygu fframwaith canlyniadau i fesur effaith?*

Ddim ar hyn o bryd.

## **Cofnod o'r Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig**:

Llenwch yr adran nesaf i ddangos sut gallai'r polisi / penderfyniad / arfer hwn gael effaith (gadarnhaol neu negyddol) ar y grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. *(Edrychwch ar ddogfen ganllawiau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gael rhagor o wybodaeth.)* Mae'n bwysig nodi unrhyw gyfleoedd rydych chi wedi dod ar eu traws a allai wella neu hybu cyfle cyfartal. Mae hyn yn

cynnwys dweud beth allwn ni ei wneud i chwalu rhwystrau a gwella cyfranogiad ymysg pobl sy'n cael eu tangynrychioli neu sy'n wynebu anfantais anghymesur.

Nid yw diffyg tystiolaeth yn rheswm dros *beidio ag asesu'r effeithiau ar gydraddoldeb*. Tynnwch sylw at unrhyw fylchau rydych chi wedi'u gweld yn y dystiolaeth, ac eglurwch sut/a ydych chi'n bwriadu llenwi'r bylchau hyn.

| **Grŵp neu nodwedd warchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran) | Cadarnhaol | Bydd cyhoeddi'r pedair dogfen ganllawiau a ddiweddarwyd yn cael effaith gadarnhaol ar oedolion yn ogystal â phlant.<br><br>Mae'r canllawiau ar Ddylunio a Rheoli safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn hyrwyddo'n benodol fannau chwarae sy'n gynhwysol i bob oedran a nodweddion hygyrch. | Ddim yn berthnasol gan fod yr effeithiau canfyddedig yn rhai cadarnhaol.<br><br>Os bydd diffyg defnydd o'r canllawiau ymysg awdurdodau lleol, bydd swyddogion polisi yn trafod hyn â swyddogion cyhoeddus yn ystod cyfarfodydd monitro rheolaidd. |
| Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd[2] a'r ffordd y gallai'ch cynnig achosi'n anfwriadol, neu y gellid ei ddefnyddio i ddileu, | Cadarnhaol | Mae'r dogfennau canllawiau a ddiweddarwyd yn cryfhau'r gofynion i awdurdodau lleol ystyried dyluniad safle sy'n gynhwysol ac yn hygyrch – ee, lleiniau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. | Ddim yn berthnasol gan fod yr effeithiau canfyddedig yn rhai cadarnhaol.<br><br>Os bydd diffyg defnydd o'r |

[2] Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad eu hamhariadau sy'n gwneud pobl yn anabl, ond y rhwystrau maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Sicrhau bod eich cynnig yn chwalu rhwystrau, yn hytrach na'u creu, yw'r ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r fewnrwyd a chwilio am 'model cymdeithasol'.

| | | | |
|---|---|---|---|
| y rhwystrau sy’n anablu pobl sydd â gwahanol fathau o amhariadau) | | Mae’r dogfennau canllawiau yn amlinellu bod rhaid i’r awdurdod lleol wneud addasiadau rhesymol i leiniau a blociau cyfleusterau er mwyn iddynt allu bod yn addas ar gyfer ymgeisydd ag anabledd.<br><br>Maent yn cyfeirio at y Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl y gall Awdurdodau Lleol ei ddefnyddio i sicrhau bod lleiniau a blociau cyfleusterau yn hygyrch.<br><br>Mae’r canllawiau ar Reoli safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn amlinellu, fel rhan o’r ‘Enghraifft o Restr Gyfeirio ar gyfer y broses sefydlu’, bod rhaid ystyried Anabledd / addasiadau.<br><br>Hefyd, mae’r canllawiau ar Ddylunio safle Sipsiwn a Theithwyr yn egluro y dylai awdurdodau lleol ymgynghori â darpar breswylwyr cyn cwblhau cynlluniau blociau cyfleusterau. Efallai y byddai’n well gan breswylwyr gael cawod na bath, neu gael ystafelloedd o feintiau ychydig yn wahanol. Mae awdurdodau lleol yn ymwybodol o’u dyletswyddau i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer preswylwyr anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yn benodol, os yw nodwedd ffisegol safle yn rhoi person anabl o dan anfantais sylweddol o’i | canllawiau ymysg awdurdodau lleol, bydd swyddogion polisi yn trafod hyn â swyddogion cyhoeddus yn ystod cyfarfodydd monitro rheolaidd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gymharu â pherson nad yw'n anabl, rhaid i'r awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i osgoi'r anfantais i'r person anabl.<br><br>Er mwyn diogelu safleoedd at y dyfodol, argymhellir bod blociau cyfleusterau yn cael eu dylunio mewn ffordd a fydd yn golygu bod modd gwneud addasiadau ar gyfer unrhyw breswylwyr anabl neu unrhyw anghenion penodol eraill yn y dyfodol, pan fydd yn bosibl. | |
| Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl Drawsryweddol) | Cadarnhaol | Er nad yw'r canllawiau'n cyfeirio'n benodol at Ailbennu Rhywedd, mae'n lleihau'r risg o wynebu gwahaniaethu wrth ymwneud ag awdurdodau, drwy annog awdurdodau i drin pob preswylydd yn deg ac yn barchus beth bynnag fo'u hunaniaeth rhywedd, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. | Ddim yn berthnasol gan fod yr effeithiau canfyddedig yn rhai cadarnhaol.<br><br>Os bydd diffyg defnydd o'r canllawiau ymysg awdurdodau lleol, bydd swyddogion polisi yn trafod hyn â swyddogion cyhoeddus yn ystod cyfarfodydd monitro rheolaidd. |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Cadarnhaol | Mae'r ddogfen ganllawiau ar Reoli safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn tynnu sylw yn benodol at bwysigrwydd hwyluso mynediad at wasanaethau iechyd, gan gynnwys gofal mamolaeth. Mae'n awgrymu y bydd bydwragedd cymunedol ac ymwelwyr iechyd o bosibl am ddefnyddio swyddfeydd ar y | Ddim yn berthnasol gan fod yr effeithiau canfyddedig yn rhai cadarnhaol.<br><br>Os bydd diffyg defnydd o'r canllawiau ymysg awdurdodau lleol, bydd swyddogion polisi yn trafod hyn â swyddogion |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | safle i gynnal ymgyngoriadau a chlinigau brechu ar y safle. | cyhoeddus yn ystod cyfarfodydd monitro rheolaidd. |
| Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr, a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | Cadarnhaol | Mae’r dogfennau canllawiau a ddiweddarwyd yn argymell gwella darpariaeth safleoedd, sy’n ceisio rhoi cymorth uniongyrchol i aelodau’r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy’n grwpiau hiliol cydnabyddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Ddim yn berthnasol gan fod yr effeithiau canfyddedig yn rhai cadarnhaol.<br><br>Os bydd diffyg defnydd o’r canllawiau ymysg awdurdodau lleol, bydd swyddogion polisi yn trafod hyn â swyddogion cyhoeddus yn ystod cyfarfodydd monitro rheolaidd. |
| Crefydd, cred a dim cred | Cadarnhaol | Mae’r dogfennau canllawiau a ddiweddarwyd yn atgyfnerthu pwysigrwydd crefydd a chred. Mae'r canllawiau’n cynnwys cyfeiriadau penodol at reoli safleoedd mewn ffordd sy'n parchu ac yn hwyluso arferion diwylliannol a chrefyddol preswylwyr, gan gynnwys darparu mannau preifat a chymunedol fel y bo’n briodol.<br><br>Mae’r dogfennau canllawiau ar reoli gwersylloedd heb eu hawdurdodi hefyd yn crybwyll y dylai awdurdodau ystyried hunaniaeth ddiwylliannol a chrefyddol y rheini sy’n preswylio mewn gwersylloedd. | Ddim yn berthnasol gan fod yr effeithiau canfyddedig yn rhai cadarnhaol.<br><br>Os bydd diffyg defnydd o’r canllawiau ymysg awdurdodau lleol, bydd swyddogion polisi yn trafod hyn â swyddogion cyhoeddus yn ystod cyfarfodydd monitro rheolaidd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhyw / Rhywedd | Cadarnhaol | Mae'r dogfennau canllawiau a ddiweddarwyd yn pwysleisio ymgorffori ystyriaethau rhywedd yn nyluniad safleoedd er mwyn hybu diogelwch a hygyrchedd, gan gynnwys cyfleusterau ar wahân a diogel i ddynion a menywod, a mannau sy'n diwallu anghenion gwahanol deuluoedd a rhywedd.<br><br>Mae'r canllawiau ar Reoli gwersylloedd heb eu hawdurdodi yn egluro'n benodol sut mae'n rhaid i Awdurdodau lleol sicrhau bod camau gorfodi'n parchu hawliau ac urddas pob preswylydd, gan roi sylw arbennig i grwpiau agored i niwed gan gynnwys menywod a phlant. | Ddim yn berthnasol gan fod yr effeithiau canfyddedig yn rhai cadarnhaol.<br><br>Os bydd diffyg defnydd o'r canllawiau ymysg awdurdodau lleol, bydd swyddogion polisi yn trafod hyn â swyddogion cyhoeddus yn ystod cyfarfodydd monitro rheolaidd. |
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Cadarnhaol | Er nad yw'r dogfennau canllawiau a ddiweddarwyd yn sôn yn benodol am gyfeiriadedd rhywiol, mae egwyddorion cyffredinol cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu yn awgrymu y dylid cynnwys yr holl breswylwyr wrth ddylunio a rheoli safleoedd, ni waeth beth yw eu cyfeiriadedd rhywiol, ac ystyried anghenion amrywiol pob unigolyn, gan gynnwys y rheini sydd â chyfeiriadedd rhywiol amrywiol. | Ddim yn berthnasol gan fod yr effeithiau canfyddedig yn rhai cadarnhaol.<br><br>Os bydd diffyg defnydd o'r canllawiau ymysg awdurdodau lleol, bydd swyddogion polisi yn trafod hyn â swyddogion cyhoeddus yn ystod cyfarfodydd monitro rheolaidd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Priodas a phartneriaeth sifil | Cadarnhaol | Nid oes unrhyw gyfeiriad penodol at briodas na phartneriaeth sifil yn y dogfennau canllawiau a ddiweddarwyd. Fodd bynnag, mae asesiadau llety yn ystyried cyfansoddiad aelwydydd, a allai gynnwys parau priod neu bartneriaid sifil. Mae'r canllawiau hefyd yn cydnabod pwysigrwydd parchu unedau teuluol a strwythurau aelwydydd wrth reoli safleoedd. | Ddim yn berthnasol gan fod yr effeithiau canfyddedig yn rhai cadarnhaol.<br><br>Os bydd diffyg defnydd o'r canllawiau ymysg awdurdodau lleol, bydd swyddogion polisi yn trafod hyn â swyddogion cyhoeddus yn ystod cyfarfodydd monitro rheolaidd. |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Cadarnhaol | Mae'r canllawiau a ddiweddarwyd yn annog mynediad at lety diogel a sefydlog sy'n cefnogi llesiant plant.<br><br>Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn rhoi rhagor o fanylion am sut bydd cyhoeddi'r pedair dogfen ganllawiau a ddiweddarwyd yn cael effaith gadarnhaol ar blant. | Ddim yn berthnasol gan fod yr effeithiau canfyddedig yn rhai cadarnhaol.<br><br>Os bydd diffyg defnydd o'r canllawiau ymysg awdurdodau lleol, bydd swyddogion polisi yn trafod hyn â swyddogion cyhoeddus yn ystod cyfarfodydd monitro rheolaidd. |
| Aelwydydd incwm isel | Cadarnhaol | Mae'r dogfennau canllawiau a ddiweddarwyd yn cydnabod yr heriau economaidd sy'n wynebu cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ac yn pwysleisio pwysigrwydd cael opsiynau llety fforddiadwy ac addas i fynd i'r afael ag | Ddim yn berthnasol gan fod yr effeithiau canfyddedig yn rhai cadarnhaol.<br><br>Os bydd diffyg defnydd o'r canllawiau ymysg awdurdodau lleol, bydd swyddogion |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | anghydraddoldebau ac i wella amodau byw.<br><br>Mae’r canllawiau ar Reoli gwersylloedd heb eu hawdurdodi yn mynd ati'n benodol i gynghori awdurdodau i ystyried amgylchiadau economaidd-gymdeithasol preswylwyr cyn cymryd camau gorfodi. | polisi yn trafod hyn â swyddogion cyhoeddus yn ystod cyfarfodydd monitro rheolaidd. |

**Hawliau Dynol a Chonfensiynau’r Cenhedloedd Unedig**

A fydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl yn eich barn chi? *(Cyfeiriwch at bwynt 1.4 yng Nghanllawiau’r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb i gael rhagor o wybodaeth am Hawliau Dynol* a *Chonfensiynau’r Cenhedloedd Unedig*).

| **Hawliau Dynol** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut byddwch chi’n lliniaru’r effeithiau negyddol?** |
|---|---|---|---|
| | Cadarnhaol | Mae parch at hawliau dynol sylfaenol, yn ogystal â chydraddoldeb, yn rhan anatod o holl waith Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae’r dogfennau canllawiau a ddiweddarwyd yn cynnwys fframweithiau i awdurdodau lleol wella canlyniadau a bywydau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru. Mae cymysgedd o ganllawiau statudol ac anstatudol. Er enghraifft mae’r Canllawiau ar gyfer Cynnal Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr yn cynnwys gofyniad statudol o dan Ddeddf Tai Cymru 2014 sy’n mynnu bod awdurdodau lleol yn cynnal asesiadau o anghenion llety lleol Sipsiwn a Theithwyr, ac yn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Ar y llaw arall, | Bydd yr Asesiad Effaith Integredig hwn yn cael ei adolygu o fewn pum mlynedd i gyhoeddi’r dogfennau canllawiau hyn a ddiweddarwyd.<br><br>Bydd y dogfennau canllawiau a gyhoeddir yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn dal yn addas i’r diben ac yn cyd-fynd â dyletswyddau statudol wrth iddynt newid. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | mae'r canllawiau ar ddylunio a rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn ganllawiau arfer gorau anstatudol, sy’n ceisio helpu awdurdodau lleol wrth iddynt ddylunio safleoedd.<br><br>Mae’r pedair dogfen ganllawiau yn ceisio gwella bywydau aelodau’r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr. | |